

ADFAIL

Denwyd deuddeg bardd i fentro ar y gystadleuaeth hon eleni – cystadleuaeth oedd yn agor y drws ar fyd atgofion, hanes, myfyrdod a theimladau personol dwys. boed hynny'n fyd cestyll, plentyndod, rhyfel, marwolaeth a dinistr trefol a bydol.

Cerddi penrydd oedd y mwyafrif, gydag un neu ddwy ar fydr ac odl. Roedd ôl chwys ac ymdrech ar nifer ohonynt, gyda'r beirdd ifanc yn gwneud eu gorau i ddefnyddio delweddau, iaith gyhyrog, cyfeiriadaeth a phersonoli –rai yn fwy llwyddiannus na'i gilydd. Hyd yn oed yn y cerddi na ddaeth i'r brig, mae gwreiddyn ar gyfer datblygiad pellach fel beirdd. Y prif anhawster gyda rhai o'r cerddi oedd fod tuedd i'r neges fynd ar goll mewn cystrawennau cymhleth wedi eu gor-lwyddo â delweddau.

O safbwynt y cerddi unigol, gallai PENFELEN, Y FERCH O ALLTWEN A LLIEDI ailedrych ar eu gwaith a sicrhau cyswllt agosach â'r teitl, er cystal eu syniadaeth. Mae MAESGLAS, BRICSEN, LLYWELYN, JAC, GWEDDILLYN, DANT-Y-LLEW a CRAMWYTH yn feirdd cymwys, ond gallent saernïo'u crefft ychydig er mwyn sicrhau bod eu neges yn glir a'u cerddi'n cyrraedd eu nod yn well erbyn y diwedd. Mae dwy gerdd yn agos ar y brig – cerddi YR ARGLWYDD RHYS ac ALGA – y naill yn sôn am ailwampio ardal Trebiwt yng Nghaerdydd a'r llall yn sôn am adfywiad Castell Aberteifi. Mae gan y ddau fardd weledigaeth glir a'u syniadau wedi'u cyflwyno'n grefftus. YR ARGLWYDD RHYS sy'n mynd â hi y tro hwn, ac ALGA'n dynn ar ei sodlau. Roedd dewis trydydd yn fwy o her. Llongyfarchiadau mawr bawb!

1. YR ARGLWYDD RHYS (376/5) (D40980)
2. ALGA (376/4) (D10491)
3. CRAMWYTH (376/2) (D10057)

SYLWADAU PELLACH:

Pleser o'r mwyaf oedd cael beirniadu'r gystadleuaeth hon – cystadleuaeth ar gyfer beirdd ifanc, beiddgar, ar ddiwedd cyfnod plentyndod, sy'n ceisio gwneud synnwyr o'r byd mawr o'u cwmpas. Dyma gyfnod digon anodd a phrysur, gyda chysgod arholiadau a'r ysfa i fentro i fyd yr oedolyn yn llethol.

Denwyd deuddeg bardd i fentro ar y gystadleuaeth hon eleni – cystadleuaeth oedd yn agor y drws ar fyd atgofion, hanes, myfyrdod a theimladau personol dwys. boed hynny'n fyd cestyll, plentyndod, rhyfel, marwolaeth a dinistr trefol a bydol.

Cerddi penrydd oedd y mwyafrif, gydag un neu ddwy ar fydr ac odl. Roedd ôl chwys ac ymdrech ar nifer ohonynt, gyda'r beirdd ifanc yn gwneud eu gorau i ddefnyddio delweddau, iaith gyhyrog, cyfeiriadaeth a phersonoli –rai yn fwy llwyddiannus na'i gilydd. Hyd yn oed yn y cerddi na ddaeth i'r brig, mae gwreiddyn ar gyfer datblygiad pellach fel beirdd. Y prif anhawster gyda rhai o'r cerddi oedd fod tuedd i'r neges fynd ar goll mewn cystrawennau cymhleth wedi eu gor-lwyddo â delweddau.

Beth bynnag, dyma ychydig sylwadau ynglŷn â cherddi bob ymgeisydd, yn nhrefn yr wyddor, gyda diolch iddynt bob un am gystadlu:

ALGA: Bardd sydd â thân yn ei fol ynglŷn ag anghyfiawnder yr holl newidiadau a ddigwyddodd i dirwedd a thrigolion ardal Trebiwt yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegi chwerwder a wna'r gerdd wrth i'r bardd fytheirio yn erbyn yr awdurdodau am fod mor anystyriol o bawb a phopeth yn enw datblygiad. Mae'r defnydd o drosiadau'n hynod effeithiol gan danlinellu anobaith a rhwystredigaeth y bardd gyda'r sefyllfa.

BRICSEN: Bardd digon mentrus ac arbrofol a luniodd gerdd ar ffurf cyfres o benillion tair llinell yn ymwneud â bro mebyd. Ceir defnydd medrus a deallus o eirfa, yn enwedig yn y penillion cyntaf, er bod cynildeb y gerdd o safbwynt y dweud a'r mesur yn rhwystr i gyrraedd at wir neges y bardd.

CRAMWYTH: Cerdd gryno sy'n cyflwyno'r syniad nad oes modd dianc rhag effaith magwraeth a chartref ar ungolyn. Eglura'r bardd ei fod wedi ceisio ymwrthod â'r ffactorau hyn dros y blynyddoedd, ond ei fod, bellach, wedi sylweddoli mai ofer yw gwneud hynny a'i fod nawr yn falch o'i wreiddiau.

DANT-Y-LLEW: Cerdd benrhydd am golled sy'n datblygu i fod yn gerdd mewn mydr ac odl yn yr ail hanner, gan adlewyrchu newid gobeithiol. Efallai bod yma ymdrech i fod yn rhy farddonol o safbwynt mynegiant weithiau a cheir ambell lithriad gramadegol, ond gyda thipyn bach o ailwampio, gallai hon fod yn gerdd drawiadol.

GWEDDILLYN: Cerdd gryno sy'n dwyn atgofion am oes ddiwydiannol a fu trwy gyflwyno'r ddelwedd o roi clust i gragen. Mae'r dweud yn syml ond gafaelgar a defnydd y bardd o eiriau megis 'safn' a 'pystadlu' yn dangos dealltwriaeth gynnil o'i grefft.

JAC: Cerdd sy'n mynd â ni nôl i chwalfa'r Blits yn ninas Abertawe adeg yr Ail Ryfel Byd. Sôn am oferedd rhyfel wna'r bardd gan gyfeirio'n drosiadol at olygfeydd o'r ddinas, gyda'r diwedd glo'n mynegi digalondid yn wyneb y fath wastraff. Mae yma ambell lithriad bach o safbwynt mynegiant ac o bosib y gallai ailweithio rhai o'r trosiadau gryfhau neges y gerdd.

LLIEDI: Cerdd ychydig yn wahanol o ran ei thema, gan ddisgrifio damwain a ddigwyddodd wedi noson feddwol yn y dafarn. Mae yma fardd deallus sy'n gallu trin geiriau'n effeithiol, er efallai nad yw cynnwys y gerdd yn cyd-fynd yn ddigon agos â thema'r gystadleuaeth hon, sef 'Adfail'.

LLYWELYN: Bro mebyd ac atgofion plentyndod yw sail y gerdd hon wrth i'r bardd ddychwelyd am dro i'w gyn-gartref. Mae yna anwyldeb yn y cyfeiriad at y ceiliog gwynt 'ar draed sinc' yn 'gwichal', er efallai bod tuedd i'r bardd golli ei ffordd ychydig yng nghanol delweddau wrth i'r gerdd fynd yn ei blaen.

MAESGLAS: Cerdd ar fydr ac odl sy'n sôn am anobaith y bardd wrth ystyried sefyllfa'r byd o'i gwmpas. Defnyddia drosiad castell, fu unwaith yn lloches gadarn, ond sydd bellach ar chwâl, gan danlinellu mor anobeithio yw sefyllfa dyn heddiw. Efallai bod y gerdd ychydig yn rhy gynnil a bod angen awgrymu ychydig yn fwy beth yn hollol sydd wrth wraidd y fath anobaith.

PENFELEN: Er mai 'Adfail' yw teitl cerdd benrhydd, grefftus Penfelen, y rhwystredigaeth pennaf gyda'r gwaith yw nad yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at y teitl o safbwynt thema. Does dim amheuaeth

fod yma argoelion o fardd arbennig o dda – un o oreuon y gystadleuaeth, o bosib. Mae ei ymdriniaeth o’i bwnc yn grefftus a deallus, a’r unig gwir wendid, yw’r cyswllt â’r teitl. Efallai hefyd fod cynildeb y dweud yn rhwystr i ddarganfod beth oedd y digwyddiad, hanner canrif yn ôl, a fu’n sbardun i’r gerdd.

Y FERCH O ALLTWEN: Rhyfel a marwolaeth yw prif themâu’r gerdd hon eto, ond mae’r llinyn cyswllt â’r teitl, ‘Adfail,’ braidd yn annelwig. Mae yma ddefnydd glew o eirfa a delweddau i gyfleu offered rhyfel, ond efallai y byddai ychydig mwy o atalnodi’n fanteisiol er mwyn saernïo neges y gerdd yn fwy effeithiol.

YR ARGLWYDD RHYS: Cerdd wedi’i saernïo’n fedrus gan fardd sy’n gysurus iawn ei ddefnydd o eiriau a delweddau. Mae yma chwarae ar sŵn geiriau wrth i’r bardd ddisgrifio sut y trawsnewidiwyd Castell Aberteifi o hen adfail i’w gyflwr presennol. Yn ogystal â dawn dweud y bardd, a’i mynegiant uniongyrchol, yr hyn sy’n gosod y gerdd hon ar y blaen i’r gweddill yw’r tinc gobeithiol ar y diwedd.

O safbwynt y cerddi unigol, gallai PENFELEN, Y FERCH O ALLTWEN A LIEDI ailedrych ar eu gwaith a sicrhau cyswllt agosach â’r teitl, er cystal eu syniadaeth. Mae MAESGLAS, BRICSEN, LLYWELYN, JAC, GWEDDILLYN, DANT-Y-LLEW a CRAMWYTH yn feirdd cymwys, ond gallent saernïo’u crefft ychydig er mwyn sicrhau bod eu neges yn glir a’u cerddi’n cyrraedd eu nod yn well erbyn y diwedd. Mae dwy gerdd yn agos ar y brig – cerddi YR ARGLWYDD RHYS ac ALGA. Mae gan y ddau fardd weledigaeth glir a’u syniadau wedi’u cyflwyno’n grefftus. Mewn cystadleuaeth glos, YR ARGLWYDD RHYS sy’n mynd â hi y tro hwn, ac ALGA’n dynn ar ei sodlau. Roedd dewis trydydd yn fwy o her fyth, gyda sawl bardd yn agos iawn ati.

Llongyfarchiadau mawr bawb!